

COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLLO A GYNHALIWYD
O BELL DROS MS TEAMS DDYDD GWENER, 5 MAWRTH 2021 AM 14:00

Yn Bresennol

Y Cyngorydd RE Young – Cadeirydd

G Cox
A A Pucella

S Edwards
J Spanswick

G Hopkins
R K Turner

G John
J E Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

E Venebles

Swyddogion:

Joanna Hamilton, Rheolwr a Chofrestyrd y Gwasanaethau Profedigaeth
Jessica McLellan, Cynorthwydd Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Michael Pitman, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Zak Shell, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Eilish Thomas, Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau

81. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

82. CYMERADWYO COFNODION 04/09/2020

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangralllo â'r dyddiad 4 Medi 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

83. GOLEUADAU ALLANOL

Mynegodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth ei ddiolchgarwch i'r tîm amlosgfeydd yn ystod cyfnod digynsail o anodd yn sgil pandemig Covid-19. Dywedodd hefyd fod holl staff yr amlosgfeydd, fel gweithwyr â blaenoriaeth, wedi cael eu brechiad cyntaf yn erbyn Covid-19.

Yna cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth adroddiad ar y bwriad i osod goleuadau allanol newydd ar dir Amlosgfa Llangralllo, a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor ym mis Mawrth 2019, ac i geisio cymeradwyaeth i ddyfarnu'r tendr o £182,646.70 i South Wales Contractors Cyf ac i'r Cydbwyllgor ddirprwyo grym i'r Clerc a'r Swyddog Technegol i gymeradwyo telerau manwl terfynol y contract mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddogion perthnasol, Cyfreithiol, AD, Gwasanaethau Rheoleiddiol, ayyb. ac i gwblhau unrhyw fanylion angenrheidiol. Dywedodd y byddai'r goleuadau'n gwella'r agwedd sy'n croesawu pobl i'r Amlosgfa, yn cynorthwyo gyda diogelwch o fewn y safle, ac o bosibl yn caniatáu cynnig rhagor o amseroedd gwasanaeth yn ystod dyddiau byrrach y gaeaf.

Roedd y cynllun wedi'i gyllidebu ar gost o £300,000 ac roedd yn cynnwys yr holl waith dylunio, y ceisiadau cynllunio ac ati, gyda chyllideb adeiladu wirioneddol o £250,000. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod y prosiect wedi'i ohirio'r llynedd oherwydd y pandemig.

Er mwyn diweddar, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod y prosiect wedi mynd allan i dendr ym mis Tachwedd 2020. Dangosodd y Tabl yn adran 4 o'r adroddiad y symiau tendro a ddychwelwyd a'r pwyntiau ansawdd technegol a ddefnyddiwyd i asesu pob un o'r tendrau. Cafwyd cais gan South Wales Contractors Cyf a enillodd y sgôr ansawdd uchaf a'r swm tendr â'r gwerth gorau o £182,646.70, sydd o fewn y swm adeiladu a gyllidwyd o £250,000.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod ymdrechion wedi'u gwneud hefyd i sicrhau y byddai'r goleuadau newydd yn gweddu'r amgylchoedd presennol ac yn cyd-fynd ag estheteg a phensaernïaeth yr Amlogfa.

Gofynnodd Aelod a oedd South Wales Contractors Cyf wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen ac a oedd y Swyddog yn fodlon y byddai'r gwaith i safon uchel.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod South Wales Contractors Cyf yn gwmni eithaf mawr ac adnabyddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac wedi gwneud llawer o waith yn Amlogfa Llangrallo yn y gorffennol, gan gynnwys adeiladu'r ffordd estynedig newydd, y meysydd parcio newydd ar y tir newydd, adnewyddu estyniad yr ystafell aros ac adnewyddu'r toiledau. Dywedodd fod y contractwyr wedi arfer gweithio ar y safle, yn deall natur sensitif gweithio ar safle o'r fath, ac wedi gweithio y tu allan i'r amseroedd gwasanaeth pob amser heb achosi unrhyw broblemau i rediad y gwasanaeth. Cadarnhawyd bod ansawdd eu gwaith yn eithriadol o uchel bob tro.

Gofynnodd Aelod pa mor aml y mae ceisiadau tendro yn derbyn sgôr berffaith, ac a fyddai'r goleuadau allanol arfaethedig yn effeithio ar lygredd golau.

O ran sgorio ansawdd, cadarnhaodd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod tri Swyddog annibynnol wedi dyfarnu sgorau, a bod pob un wedi nodi'r un sgôr ar gyfer South Wales Contractors Cyf yn annibynnol i'w gilydd. Dywedodd fod y cyflwyniad o safon eithriadol o uchel a'u bod wedi mynegi eu dealltwriaeth o'r safle yn glir. Dywedodd mai'r tendr economaidd isaf sy'n derbyn y sgôr uchaf ar yr agwedd ariannol.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth mai dim ond ar ddiwedd y dydd yn ystod misoedd y gaeaf y byddai'r goleuadau'n cael eu defnyddio ac y byddent ar system amseru; gan ddiffodd ychydig ar ôl 5yh pan fydd y safle'n cau yn y gaeaf. Cadarnhaodd na fyddent wedi'u cynnwys yn ystod y nos, dim ond yn ystod misoedd y gaeaf pan fo'u hangen yn ystod y diwrnod gwaith at ddibenion goleuo a diogelwch. Ar ôl y cyfnod hwnnw, byddent yn cael ei ddiffodd yn awtomatig ac felly ni fyddent yn achosi unrhyw lygredd golau gyda'r nos neu dros nos.

PENDERFYNIAD: Bod y Cydbwyllgor yn:-

- a) Cymeradwyo Tender Rhif 1 gan South Wales Contractors Cyf ar swm o £182,646.70 ac yn dyfarnu'r Contract i'r contractwr hwn.

- b) Dirprwyo grym i'r Clerc a'r Swyddog Technegol i gymeradwyo telerau terfynol y Contract mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac wedi hynny i drefnu i'r Contract gael ei weithredu ar ran y Cydbwyllgor.

84. CYNLLUN BUSNES A FFIOEDD YR AMLOSGFA

Cyflwynodd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad yn gofyn i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r rhaglen wariant ar gyfer 2021-22, a oedd yn cynnwys cynnydd arfaethedig mewn ffioedd amlosgi.

Dywedodd fod y Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo a'i fod yn cynnwys amcanion gwasanaeth a phrosiectau cynnal a chadw a gwella arfaethedig i wella a chynnal tiroedd ac adeiladau'r Amlosgfa ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Tynnodd sylw at y ffaith bod y Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth yn dangos y gwobrau a'r cyflawniadau a nodwyd, yn enwedig dyfarniad Gwobr y Faner Werdd eto yn 2020, a bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn hunangynhaliol.

Dywedodd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod dau Dechnegydd Amlosgfa dros dro wedi'u cyflogi ym mis Mai 2020 i gynorthwyo yn ystod pandemig Covid-19.

Tynnodd sylw at y ffaith bod yr adroddiad wedyn yn manylu ar yr oriau busnes, y mathau o gofebion a ddarparwyd, y gwahanol ffyrdd y mae'r Amlosgfa yn marchnata ei hun ac yn cyfathrebu â'i ddefnyddwyr gwasanaeth, a'r gwahanol ffyrdd yr oedd yr Amlosgfa yn parhau i fod yn amgylcheddol gynaliadwy.

Roedd y Cynllun Busnes yn manylu ar gyflawniadau allweddol y 10 mlynedd diwethaf. Yn 2020, gosodwyd system aerdymheru yn ardaloedd gweithredol yr amlosgfa a'r swyddfa ac adnewyddwyd prif fyrrddau dosbarthu trydanol y safle.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod yr adroddiad yn cynnwys y dangosyddion perfformiad ar gyfer y 5 mlynedd flaenorol o ran boddhad defnyddwyr; cymerwyd y canlyniadau o'r holiaduron gwasanaeth a anfonir at yr ymgeiswyr amlosgi. Y targed oedd i 100% o lefelau boddhad cyffredinol gyrraedd gradd 'Da' neu 'Ragorol', ac roedd y rhain yn parhau'n gyson ar 100% a'r un targed wedi'i ail-osod ar gyfer 2021-22.

Cadarnhaodd mai cyfanswm yr amlosgiadau ym mlwyddyn galendr 2020 oedd 1,933; gan gynnwys 1,251 o Ben-y-bont ar Ogwr, 141 o Fro Morgannwg a 467 o Rionda Cynon Taf, gyda 74 o bobl nad oeddent yn drigolion. Arweiniodd y cytundeb gydag Amlosgi Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer amlosgi gweddillion ffoetws anhyfyw at 6 amlosgiad cymunedol ychwanegol, a threfnwyd 12 amlosgiad ffoetws unigol yn uniongyrchol gyda theuluoedd.

Cafodd y tabl cofnodion ystadegol ar gyfer 2019 ei gynnwys at ddibenion cymharu â dangosydd mai cyfanswm nifer yr amlosgiadau ar gyfer 2019 oedd 1,625; cynnydd o 308 o gymharu ag amlosgiadau 2020, gan ddangos effaith pandemig Covid-19 ar ffigyrau. Dangosodd ystadegau a ddadansoddwyd o ddechrau pandemig, o ddechrau mis Mawrth

2020 tan ddiwedd mis Chwefror 2021, o'u cymharu â'r un cyfnod ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2019-20, fod 1,646 o amlosgiadau yn y flwyddyn flaenorol o'i gymharu â 2,056 yn y flwyddyn hon. Dangosodd hyn fod 12 mis diwethaf y pandemig wedi arwain at gynydd o 410 yn nifer yr amlosgiadau, sef tua chwarter yn fwy o farwolaethau nag a ddisgwyld.

Roedd y Cynllun Busnes yn amlinellu amcanion a datblygiadau'r gwasanaeth ar gyfer cyfnod 2021-22, ac yn sôn eto am amnewid y byrddau dosbarthu trydanol, a ohiriwyd oherwydd newidiadau staffio yn adran peirianeg drydanol y Cyngor ond a gwblhawyd ym mis Medi 2020.

O ran taliadau lleihad mercwri, atgoffwyd y Cydbwyllgor y gall yr amlosgfeydd hynny sydd wedi cyflawni lleihad mewn dros 50% o'u hamlosgiadau werthu gweddill eu hamlosgiadau lleihau mercwri i'r rhai sydd heb gyrraedd y targed hwn, a bod hyn yn cael ei wneud drwy CAMEO. Mae'r rhai sydd wedi lleihau mwy na'r galw yn cael incwm, a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny yn rhannu'r baich ariannol. Er cefndir, yn 2015/2016, talodd yr Amlosgfa £41,000 o ganlyniad i gostau rhannu beichiau ar gyfer amlosgiadau heb leihad, ac yn 2016-17 pan gwblhawyd y gwaith o osod yr offer lleihau mercwri, lleihawyd mwy na 50% o amlosgiadau a chynhyrchwyd incwm o £5,950.10. Cynhyrchwyd incwm tebyg ar gyfer y blynnyddoedd dilynol, ac ar gyfer 2019-20 cynhyrchwyd incwm o £5,830. Disgwyllir cadarnhad o swm yr incwm disgwyliedig a gynhyrchwyd ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, nododd y Rheolwr Profedigaeth a Gwasanaethau y byddai'n disgwyl gweld gostyngiad yn yr incwm hwn yn y dyfodol wrth i fwy o amlosgfeydd osod gweithfeydd lleihau mercwri.

Cadarnhaodd mai prif ffocws amcanion y gwasanaeth yn 2021-22 fyddai:

1. Gosod gwaith uwchraddio systemau cerddoriaeth a chyfryngau cyfrifiadurol y Capel, a gymeradwywyd yn y cyfarfod ar 6 Mawrth 2020. Mae'r pandemig wedi gohirio'r prosiect hwn ond gobeithir y gellid eu gosod ym mlwyddyn ariannol 2021-22, ac mae'r costau gosod wedi'u cynnwys yng nghyllideb refeniw 2021-22.
2. Gwaith ymestyn y cwrth blodau yn mynd rhagddo. Derbyniwyd yr holl gymeradwyaethau statudol, caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig, rheoliadau draenio ac adeiladu cynaliadwy erbyn diwedd 2020. Mae cwblhad y cam dylunio wedi'i ohirio oherwydd y pandemig, ond mae'r pensaer wedi llwyddo i oresgyn hyn; mae'n adeiladu prototeip ac yn profi elfennau strwythurol y to. Mae gwaith caffael yn mynd rhagddo, a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor mewn cyfarfod diweddarach i geisio cymeradwyaeth derfynol ar gyfer cam adeiladu'r prosiect. Mae amcangyfrif o swm y gyllideb wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2021-22.
3. Gosod y goleuadau allanol; yr adroddiad a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor yn gynharach yn y cyfarfod. Disgwyllir i'r gwaith ddechrau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd hon.

Cadarnhaodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod arian wrth gefn ar gyfer eiddo hefyd wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw'r Amlosgfa i dalu am waith sydd heb ei gynllunio, gwaith atgyweirio, a chynnal a chadw cyffredinol. Atgoffwyd y Cydbwyllgor bod y gronfa dros ben wedi'i chynllunio i fod yn gronfa wrth gefn ar gyfer amnewid yr amlosgyddion a'r gwaith ategol yn y dyfodol, ymhen oddeutu 12 mlynedd, yn ogystal ag ariannu'r holl welliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Profedigaeth a Gwasanaethau y bydd cynnal a chadw'r gronfa wrth gefn yn sicrhau bod gan yr Amlosgfa ddigon o arian hirdymor ar gyfer y ddau beth ynghyd ag unrhyw achosion annisgwyl a allai ddigwydd.

Yna tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd sylw at y Tabl a oedd yn crynhoi'r costau rhagamcanol ar gyfer gwaith a gynlluniwyd, y Tabl a oedd yn rhoi manylion ar gyfer y gyllideb arfaethedig gyffredinol ar gyfer 2021-22, a'r Tabl a oedd yn crynhoi'r amserlenni a chyfrifoldebau Swyddogion ar gyfer y prosiectau dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r flwyddyn ariannol gyfredol ac ar gyfer yr amcanion newydd a adroddwyd ar gyfer 2021-22.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod y ffi amlosgi ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn gosod yr Amlosgfa yn safle 272 o'r 308 awdurdod amlosgi, ac argymhellwyd cynyddu'r ffi amlosgi trwy chwyddiant o £696.40 i £707.50, yn seiliedig ar gynnydd cyffredinol o 1% mewn ffioedd ynghyd â'r ffigur chwyddiant presennol o 0.6% yn unol â phrotocol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y tabl ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad yn dangos cymhariaeth ar ffioedd amlosgi cyfredol (2020-21) ar gyfer amlogsfeydd cyfagos.

Nododd Aelod â phryder fod y ffioedd amlosgi a godir gan Fro Morgannwg £248.60 yn fwy na Phen-y-bont ar Ogwr yn ôl y ffigurau presennol, a mynegodd nad oedd trefnwyr angladdau yn rhoi'r dewis i deuluoedd o ran cynnal amlosgiadau ym Mro Morgannwg neu Ben-y-bont ar Ogwr, a'u bod yn cael eu cyfeirio at Fro Morgannwg am gost llawer uwch. Manteisiodd yr Aelod hefyd ar y cyfle i fynegi cefnogaeth i waith y tîm Amlosgfa yn ystod cyfnod anodd iawn.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod trefnwyr angladdau yn rhedeg busnesau preifat ac yn gweithio er lles teuluoedd, ond y byddant hefyd yn ceisio'r dull mwyaf effeithlon o redeg eu busnesau. Nododd mai'r bwriad yn hyn yw cynyddu argaeledd eu fflyd ac efallai y byddant yn dewis mynd i'r amlogsfeydd agosaf.

Dywedodd hefyd, cyn y pandemig (cyn y cyfyngiadau ar y niferoedd a gaiff fynychu angladdau) ei bod yn amlwg iawn fod Llangrallo yn cael ei ddewis yn ddieithriad pan fo presenoldeb mawr yn cael ei ddisgwyl ar gyfer angladd o Fro Morgannwg, gan fod y safle'n gallu darparu'r lefel o wasanaeth sy'n ofynnol ar gyfer nifer fawr o bobl. Gall y safle a'r tiroedd ddarparu ar gyfer hynny yn Llangrallo, o gymharu â'r amlosgfa yng nghapel Bro Morgannwg, a'r gallu i letya cerbydau. Cydnabu nad oedd rhai trefnwyr angladdau yn rhoi'r dewis o amlogsfeydd i deuluoedd gan achosi iddynt dalu mwy, ond dywedodd ei bod yn anodd newid hynny gan mai'r trefnwyr angladdau oedd yn arwain y teulu a dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud i roi gwybod am ffioedd Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhoddodd yr Aelod ganmolfaeth i'r Swyddog a'i thîm am redeg yr Amlosgfa yn effeithlon, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd yr Aelod fod y Swyddog wedi dadansoddi'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, a chwestiynodd effaith y ffigurau ar weithrediad yr Amlosgfa yn ystod y 12-24 mis nesaf o ystyried marwolaethau a allai fod wedi digwydd lawer cynharach na'r disgwyl heb y pandemig.

Nododd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai effaith wedi bod, ond ei bod yn amlwg bod nifer yr amlosgiadau wedi bod yn cynyddu yn Llangrallo flwyddyn ar ôl blwyddyn, cyn y pandemig. Dywedodd, felly, nad oedd disgwyl gostyngiad mawr yn y nifer ar ôl y pandemig pan fo'r marwolaethau o ganlyniad iddo wedi dod i ben. Cydnabu'r Swyddog ei bod yn debygol y byddai rhywfaint o effaith fach oherwydd bod rhai o'r henoed iawn wedi huno yn gynharach oherwydd y pandemig. Dywedodd nad oes astudiaethau yn y maes hwn ar hyn o bryd ond dywedodd, er ei bod yn debygol y bydd effaith, fod y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu a bod nifer y marwolaethau a dderbyniwyd

yn Llangrallo o flwyddyn i flwyddyn wedi cynyddu y bydd hynny efallai'n gorbwyso newidiadau mewn demograffeg.

Cydnabu Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod nifer o bobl wedi marw'n gynt na'r disgwyl, ac y byddai hyn yn debygol o achosi gostyngiad, er nad yw'r manylion yn hysbys gan nad oes astudiaethau wedi'u cwblhau. Dywedodd, o'r rhai a fu farw, eu bod wedi marw'n sydyn iawn, a phryd bynnag y byddent wedi cyrraedd diwedd eu hoes yn naturiol, byddai wedi bod ar wahanol adegau a thros gyfnod hirach. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'r marwolaethau a ddaeth mewn cyfnod byr iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dod i'r Amlogsgfa rywbryd yn y dyfodol. I grynhoi, byddai wedi'i ledaenu, felly roedd yr effaith yn debygol o fod yn fychan ac ni ddisgwylir unrhyw ddipliau sylweddol.

Manteisiodd aelod ar y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth a'i thîm am eu gwaith gan gydnabod, yn enwedig, y 10 mlynedd o wobrau Baner Werdd y maent wedi'u derbyn.

PENDERFYNIAD: Fod y Cydbwyllgor yn:

- a) Cymeradwyo Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth 2021-22.
- b) Cymeradwyo'r ffi amlosgi o £707.50 ar gyfer 2021-22 a chynnydd cyffredinol o 1.6% ym mhob ffi.

85. RHAGLEN GYFARFODYDD 2021-22

Cyflwynodd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan Aelodau ar gyfer rhaglen arfaethedig cyfarfodydd y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn 2021-22. Cadarnhaodd fod disgwyl i'r Cydbwyllgor gynnal o leiaf ddau gyfarfod ym mhob blwyddyn ddinesig a'r cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfodydd blynyddol y Cynghorau fyddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu dewis.

Roedd y cyfarfodydd arfaethedig hyn fel a ganlyn:-

Dydd Gwener 11 Mehefin 2021 – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol;
Dydd Gwener 3 Medi 2021;
Dydd Gwener 4 Mawrth 2022.

Holodd Aelod a fyddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn person, neu a fyddai'n well gan Aelodau osgoi teithio a pharhau â chyfarfodydd rhithiol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod y posibilïadau'n cael eu hystyried ond bod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn debygol o anelu at fodel o 30%; gyda phobl yn gweithio gartref 30% o'r amser, a bod hyn yn debygol o gael ei ailadrodd ar draws awdurdodau. Cydnabu ei fod yn ffordd newydd o weithio y mae pobl wedi arfer â hi, ond ei bod yn debygol mai modelau cyfunol a ddefnyddir wrth symud ymlaen. Dywedodd fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch gosod offer fideo-gynadledda mewn ystafelloedd cynadledda i alluogi presenoldeb rhannol gyda rhai yn bersonol a rhai i gysylltu o bell.

Cydnabu Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth hefyd effaith teithio ychwanegol ar yr agenda carbon ac a ellid ei osgoi er budd amgylcheddol.

Nododd Aelod fod un o gyfarfodydd y flwyddyn fel arfer yn cynnwys ymweliad â'r Amlosgfa, ac er ei bod yn cydnabod bod hwn yn gyfarfod defnyddiol iawn derbyniodd y byddai cyfarfodydd rhithwir hefyd yn ddefnyddiol ar adegau.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ychwanegiad defnyddiol i gael cyfarfodydd cyfunol, ond cydnabu hefyd pa mor ddefnyddiol oedd yr ymweliad â'r Amlosgfa i weld beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni.

Dywedodd y Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y bydd yn derbyn arweiniad y Cabinet a'r Gwasanaethau Democrataidd o ran hyn, a'i bod yn debygol o fod yn system gymysg, ac i'r rhai sydd gerllaw ac sy'n dymuno bod yn bresennol gael mynychu, a'r rhai ymhellach i ffwrdd gael bod yn bresennol drwy fideo-gynadledda.

Fodd bynnag, nododd y byddai'r ymweliad safle fel arfer yn digwydd cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym Mehefin, a bod hynny'n fuddiol iawn. Dywedodd ei fod yn caniatáu i Aelodau weld beth sydd wedi digwydd ar y safle yn ystod y cyfnod o 12 mis blaenorol, ac iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r papurau y maen nhw ar fin penderfynu arnyn nhw. Cadarnhaodd hefyd fod y rhan fwyaf o'r ymweliad yn digwydd y tu allan, a'i bod yn gobeithio y gallai barhau yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: Bod y Cydbwyllgor wedi cymeradwyo'r Rhaglen Gyfarfodydd ar gyfer 2021-22, fel yr amlinellir yn Adroddiad y Swyddog.

86. PERFFORMIAD ARIANNOL 2020-21 A CHYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG 2021-22

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cydbwyllgor am berfformiad ariannol rhagamcanol yr Amlosgfa ar gyfer 2020-21, a chael cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor ar gyfer Cyllideb Arfaethedig a Ffioedd a Thaliadau 2021-22.

Cymeradwywyd cyllideb refeniw 2020-21 gan y Cydbwyllgor ar 6 Mawrth 2020. Dangosodd Tabl 1 ym mharagraff 4.1 y gymhariaeth rhwng y gyllideb a'r gwariant rhagamcanol ar 31 Ionawr 2021. Dywedodd, pan osodwyd y gyllideb, fod diffyg cyllidebol disgwyledig o £395,000, mai gwarged o £517,000 oedd yr alldro a ragwelir ar ddiwedd mis Ionawr.

Rhoddodd paragraff 4.2 o'r adroddiad rywfaint o fanylion am y prif amrywiannau a nodwyd ar orwariant o £36,000 ar weithwyr oherwydd bod dau dechnegydd amlosgfa ychwanegol yn cael eu cyflogi o fis Mehefin 2020, a gafodd ei wrthbwysu gan danwariant o £8,000 ar gostau gweithwyr eraill. Tanwariant o £11,000 ar safleoedd, sy'n cynnwys tanwariant ar gynnal a chadw ac ardrethi busnes, a wrthbwyswyd gan orwariant bach ar drydan. £51,000 o orwariant ar gyflenwadau, gwasanaethau, a thrafnidiaeth, gyda'r rhan fwyaf ohonynt o ganlyniad i fwy o wariant ar eitemau i'w hailwerthu.

Dywedodd fod tanwariant o £832,000 ar waith cynnal a chadw cyfalaf wedi'i gynllunio a bod Tabl 2 ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad yn dangos dadansoddiad o'r gyllideb cynnal a chadw arfaethedig ynghyd â'r alldro a'r amrywiannau rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn. Dywedodd y Swyddog fod tanwariant oherwydd gohirio prosiectau o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd pob un o'r tri phrosiect gohiriedig bellach wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021-22.

Nododd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau fod incwm £160,000 yn uwch na'r gyllideb o ganlyniad i gynnydd mewn amlosgiadau yn ogystal â derbyn cronfa caledi Covid-19 Llywodraeth Cymru.

Dangoswyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021-22 sydd i'w gweld yn Nhabl 3, paragraff 4.3 o'r adroddiad. Roedd y gyllideb arfaethedig yn dangos diffyg o £451,000. Roedd y cyfan o'r cyllidebau nad oedd yn gysylltiedig â'r gweithwyr ar gyfer 2020-21 wedi'u hadolygu ac roedd unrhyw gymwysiadau angenrheidiol wedi'u gwneud i ymateb i'r gwariant disgwyliedig ar gyfer 2021-22.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau fod cyllidebau ar gyfer gweithwyr wedi'u haddasu i adlewyrchu ychwanegiad cyflog lle bo hynny'n berthnasol, er nad oedd lwfans wedi'i wneud ar gyfer dyfarniad cyflog.

Roedd Tabl 4 ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad yn manylu ar y gofynion gwariant arfaethedig ar gynnal a chadw cyfalaf. Cyllidwyd y tri chynllun a nodir yn y Tabl ar £845,000 a byddent yn cael eu talu o'r gyllideb costau ariannu cyfalaf a nodir yn Nhabl 3.

Paratowyd y cyllidebau incwm gan dybio cynnydd cyffredinol o 1.6% mewn ffioedd ac roeddent yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch arferol. Amgaewyd Tabl Ffioedd arfaethedig 2021-22 yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dangoswyd yr effaith ar gydbwysedd cronedig y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn Nhabl 5 o'r adroddiad. Rhagwelwyd y byddai balans cronedig o £2,120,000 ar 31 Mawrth 2022. Ystyriwyd bod Balans y Cronfeydd Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2021 ar lefel ddigonol i gynnal a diogelu'r gwasanaeth pe bai unrhyw ofynion neu argyfyngau anhysbys.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau na fyddai'r gwariant cyfalaf ar gyfer 2021-22 yn gofyn am unrhyw dâl benthyciad na chyfraniad gan yr awdurdodau cyfansoddol yn 2021-22. Byddai eitemau o natur gyfalaf yn Nhabl 4 ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad yn cael eu hariannu'n uniongyrchol o gyfraniadau refeniw a'r gwarged cronedig o flynyddoedd blaenorol.

Nododd Aelod fod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn a'i fod yn adlewyrchiad o ba mor dda yr oedd yr Amlosgfa'n cael ei chynnal o ran cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd, ei chyfrifoldebau cyllidol, a'r gofal a gymerir wrth ei rhedeg. Nododd yr Aelod ymhellach nad oedd angen unrhyw fuddsoddiad pellach gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol, ac na fyddai angen i unrhyw waith Cyfalaf angenrheidiol dynnu ar adnoddau'r tri awdurdod lleol cyfansoddol.

Nododd Aelod na wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniad cyflog ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad a holodd ble y byddai'r arian yn dod ar gyfer hynny pan wnaed dyfarniad cyflog.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chwblhau, pan wnaed penderfyniadau ar ddyfarniad cyflog, y byddai'r gyllideb yn cael ei hail-broffilio i ystyried hynny ac y byddai cynnydd yng nghyllideb y gweithwyr yn dangos hynny.

Nododd Aelod fod y gwariant a'r gofynion cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a ddangosir yn Nhabl 4 yr adroddiad yn nodi swm goleuadau safle fel £250,000, ond holodd a fyddai

angen addasu hynny er mwyn ystyried y dyfynbris o £182,646.70 a dderbyniwyd ar gyfer y goleuadau.

Cadarnhaodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod y £250,000 yn caniatáu ar gyfer yr holl gostau peirianyddol, cynllunio, ceisiadau ac ati. Cydnabu fod y ffigur yn debygol o fod yn ddarbodus, a chadarnhaodd y bydd unrhyw arian na chaiff ei wario yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn y gyllideb. Eglurodd fod yr arian yn cynnwys yr hyn yr oedd yn ofynnol ei dalu i'r contractwyr, ond hefyd yr holl gostau ychwanegol o reoli a chynllunio'r prosiect.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth mai'r arfer gorau fyddai cadw'r gyllideb lawn a ddyrennir i unrhyw brosiect adeiladu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Cydnabu fod y gwaith yn brosiect peirianeg cymharol syml ond y gellid mynd i gostau ychwanegol ar hyd y ffordd. Cadarnhaodd na fyddai'r arian yn mynd i unrhyw le arall ac y byddai'n dychwelyd i'r swigen ariannol.

Dyweddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod y gyllideb wedi'i haddasu ychydig o £300,000 i £250,000 i ystyried y swm a gyflwynwyd gan y contractwr ar gyfer y swydd a'r costau ychwanegol ar gyfer cynllunio peirianyddol ac ati, ac i sicrhau bod digon wedi'i gyllidebu rhag ofn.

Dyweddodd y Cadeirydd eu bod am ddiolch i Reolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth a'i thîm a'u llongyfarch am y gefnogaeth barhaus a roddwyd i bobl Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn anterth y pandemig. Cadarnhaodd y bu cynnydd enfawr ar ddechrau'r pandemig, ac o fis Rhagfyr hyd at y presennol. Mynegodd fod y Cydbwyllgor yn deall y problemau a gafodd y gweithlu, ac yn rhoi ei ddiolchgarwch am y ffordd yr oeddent wedi ymddwyn a chynnal yr Amlosgfa.

PENDERFYNIAD: Bod y Cydbwyllgor yn:-

- a) Nodi'r perfformiad ariannol rhagamcanol ar gyfer 2020-21.
- b) Cadarnhau a chymeradwyo'r gyllideb refeniw i'w mabwysiadu ar gyfer 2021-22.
- c) Cymeradwyo'r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau o 1 Ebrill 2021 fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

87. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 15:09.